

Mae canlyniadau eich prawf gwaed yn dangos y gallech chi fod yn gludydd beta-thalasaemia

Cyflwyniad

Mae'r daflen yma i fenywod sydd wedi cael prawf am gryman-gell a thalasaemia mewn beichiogrwydd, ac i fenyw sydd wedi cael gwybod y gall hi fod yn **cario beta-thalasaemia** (sydd hefyd yn cael ei alw'n tueddiad posibl o beta-thalasaemia).

Negeseuon allweddol

Gan nad ydyn ni'n siŵr ydych chi'n cario beta-thalasaemia, rydyn ni wedi ysgrifennu'r daflen **fel petaech chi'n cario beta-thalasaemia**.

- Ni fyddai bod yn gludydd (cario) beta-thalasaemia'n achosi unrhyw broblemau iechyd i chi fel arfer.
- Mae'n bosibl ei drosglwyddo i'ch plant a dyma pam y mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol y gallech chi fod yn gludydd.
- Rydyn ni'n argymhell bod tad biolegol eich babi'n cael prawf (gweler tudalen 4).

Ystyr canlyniad eich prawf gwaed

Mae canlyniad eich prawf wedi'i gyfleu fel: **cludydd posibl o beta-thalasaemia**. Bydd yr adroddiad yn dweud bod mwy o archwiliadau'n cael eu gwneud er mwyn rhoi diagnosis pendant i chi. Bydd yn argymhell hefyd y dylai tad biolegol eich **babi gael prawf**.

Mae eich prawf gwaed diweddar wedi dangos:

- bod y celloedd coch yn eich gwaed yn llai na'r disgwyl; neu
- fod y celloedd coch yn eich gwaed o'r maint arferol ond bod prawf arall a gafodd ei wneud yr un pryd yn dangos y gallech chi fod yn cario beta-thalasaemia, ond nid yw'r canlyniad yn bendant.

Diffyg haearn yn y gwaed sydd fel arfer yn gwneud y celloedd coch yn llai, sef yr achos pennaf o anaemia. Mae'r prawf gwaed sy'n cael ei wneud yn ystod eich beichiogrwydd yn gwirio lefel y fferitin yn eich gwaed, ac mae'n ein helpu i benderfynu a oes diffyg haearn yn eich gwaed. Yn achos rhywun iach sydd â digon o haearn yn ei waed, yr esboniad mwyaf tebygol i ganlyniad y prawf gwaed yw bod yr unigolyn yn cario beta-thalasaemia.

Beth yw beta-thalasaemia?

Mae beta-thalasaemia'n un o'r nifer o amrywolion a allai fod yn eich gwaed. Maen nhw'n cael eu galw'n amrywolion yng ngenynnau'r haemoglobin, ac maen nhw'n gallu cael eu trosglwyddo o'r rhiant i'r plentyn. Yn achos y mwyafrif o'r nodweddion rydych chi'n eu hetifeddu, rydych chi'n etifeddu un genyn o'ch mam fiolegol ac un genyn o'ch tad biolegol. Er enghraifft, mae'ch genynnau'n rheoli lliw eich croen, eich gwallt a'ch llygaid. Mae'ch genynnau hefyd yn rheoli'r math o haemoglobin rydych chi'n ei etifeddu.

Mae cludydd beta-thalasaemia'n etifeddu'r genyn beta-globin arferol o un o'i rieni, a genyn beta-globin wedi'i newid o'r ail riant.

Nid yw'r genyn wedi'i newid yn gwneud llawer iawn o haemoglobin, os yw'n gwneud unrhyw haemoglobin o gwbl. Mae llawer o bobl yn cario beta-thalasaemia ond mae'n fwy cyffredin ymhlith pobl y mae eu teulu a'u cyn-deidiau'n hanu (yn dod) o:

- wledydd Môr y Canoldir (er enghraifft, Gwlad Groeg, Twrci, Cyprus a'r Eidal);
- y Dwyrain Canol (er enghraifft, Iran, Irac, Sawdi-Arabia, Oman, Yemen);
- De Canolbarth Asia (er enghraifft, India, Pacistan, Bangladesh);
- De-ddwyrain Asia (er enghraifft, Byrma [sydd hefyd yn cael ei alw'n Myanmar], Malaysia, Fiet-nam, Singapôr, Gwlad Thai, Ynysoedd y Philipines, Laos, Cambodia, Indonesia); neu'r
- Dwyrain Pell (er enghraifft, Tsieina, Korea).

Mae'n gallu digwydd hefyd ym mhob grŵp ethnig.

Y pethau dylech chi fod yn eu gwybod os ydych chi'n cario beta-thalasaemia

Rydyn ni'n ansicr ar hyn o bryd ydych chi'n cario beta-thalasaemia, ond rydyn ni wedi ysgrifennu'r wybodaeth sy'n dilyn **fel petaech chi'n cario beta-thalasaemia**.

- Ni ddylai bod yn gludydd beta-thalasaemia achosi unrhyw broblemau iechyd i chi.
- Mae'n bosibl i gludydd drosglwyddo beta-thalasaemia i'w blant. Dyma pam mae'n bwysig eich bod yn gwybod bod posibilrwydd eich bod yn gludydd.
- Os byddwch chi'n cael prawf gwaed, dywedwch wrth eich meddyg y gallech chi fod yn cario beta-thalasaemia rhag i chi gael diagnosis anghywir o ddiffyg haearn. Os bydd eich meddyg


eisoes yn gwybod y gallech chi fod yn cario beta-thalasaemia, gall osgoi cynnig profion diangen i chi ac osgoi rhoi presgripsiwn i chi am haearn.

- Dim ond os yw prawf gwaed wedi dangos bod diffyg haearn yn eich gwaed y dylech chi fod yn cymryd moddion haearn.
- Rydych chi'n rhydd i roi gwaed (pan nad ydych chi'n feichiog), ar yr amod nad oes anaemia (lefel is na'r arfer o haemoglobin) arnoch chi.
- Os ydych chi'n cario beta-thalasaemia, mae siawns y gallai eich plant gael anhwylder difrifol ar yr haemoglobin, os yw eu tad biolegol hefyd yn cario beta-thalasaemia neu'n gludydd o fath arall o amrywiolyn yn yr haemoglobin.

Os ydw i'n gludydd, beth allai hyn ei olygu i'r plentyn yn fy nghroth?


Gan fod posibilrwydd eich bod yn cario beta-thalasaemia, mae siawns y gallech chi drosglwyddo'r genyn wedi'i newid i unrhyw blant byddwch chi'n eu cael.

Os byddwch chi'n cael plentyn gyda phartner **sydd ddim** yn cario beta-thalasaemia, risg isel fyddai gan eich plentyn o etifeddu anhwylder beta-thalasaemia. Ond byddai 1 siawns o bob dwy (50%) y gallai eich plentyn fod yn **gludydd iach**, fel rydyn ni'n credu eich bod chi. Mae'r diagram sy'n dilyn yn dangos hynny.



Mae'r diagram yn dangos sut mae hyn yn gweithio. Mae un o'r rhieni'n gludydd, ond nid yw'r llall yn gludydd. Mae'r ffigurau mewn dau liw i ddangos fod gan y rhiant sy'n gludydd un genyn beta-globin arferol (lliw gwyn) ac un genyn beta-globin wedi'i newid (lliw glas).

Os byddwch chi'n cael plentyn gyda phartner sydd **yn** cario beta-thalasaemia, mae un siawns o bob pedair (25%) y gallai eich plentyn etifeddu anhwylder beta-thalasaemia. Mae'r diagram sy'n dilyn yn dangos hynny.



Mae'r diagram yn dangos sut mae hyn yn gweithio. Mae'r ddau riant yn gludyddion. Mae'r ffigurau mewn dau liw i ddangos fod gan y ddau riant un genyn beta-globin arferol (lliw gwyn) ac un genyn beta-globin wedi'i newid (lliw glas).

Os byddwch chi'n cael plentyn gyda phartner sydd ddim yn cario beta-thalasaemia ond mae'n cario genyn ar gyfer unrhyw fath arall o haemoglobin wedi'i newid, mae un siawns o bob pedair (25%) y gallai eich plentyn etifeddu math arall o anhwylder ar yr haemoglobin. Mae rhai o'r anhwylderau yma'n rhai ysgafn ond mae rhai'n fwy difrifol. Bydd eich bydwraig neu'ch cyngorydd ar eneteg yn trafod hwn gyda chi.

Gwneud prawf ar dad y babi

Rydyn ni'n awyddus i dad biolegol eich babi gael prawf, ac i wneud y prawf cyn pen **tri diwrnod gwaith** neu cyn gynted â phosibl. Pwrpas y prawf yw dod i wybod a yw'r tad yn cario beta-thalasaemia neu'n cario math arall o amrywiolyn anarferol yn yr haemoglobin.

Os nad yw tad eich babi'n cario beta-thalasaemia ac os nad yw'n cario unrhyw fath arall o amrywiolyn anarferol yn ei haemoglobin, ni ddylai beta-thalasaemia nac unrhyw anhwylder arall ar yr haemoglobin fod yn effeithio ar y babi yn eich croth nac ar unrhyw fabanod rydych chi'ch dau eisoes wedi'u cael neu rai byddwch chi'n eu cael yn y dyfodol. Yn yr achos yma, nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Os yw tad eich babi'n cario beta-thalasaemia neu os yw'n cario unrhyw fath arall o amrywiolyn anarferol yn ei haemoglobin, mae posibilrwydd y

gallai hwn gael ei drosglwyddo i'r babi oddi wrth y ddau riant. Fe allai goblygiadau hynny fod yn ddifrifol i'ch babi.

Os daw'n amlwg bod risg uchel yn eich beichiogrwydd o anhwylder difrifol ar yr haemoglobin

Os ydych chi a thad biolegol eich babi fel eich gilydd yn cario beta-thalasaemia neu rai mathau penodol eraill o amrywolion yng ngenynnau'r haemoglobin, byddwch chi'n cael eich gwahodd cyn gynted â phosibl yn y beichiogrwydd i drafod y sefyllfa gyda bydwraig arbenigol neu gynghorydd ar eneteg. Pwrpas gwneud hyn yw rhoi gwybodaeth i chi am y ffordd y gallai hyn effeithio ar y babi yn eich croth.

Bydd rhai rhieni'n dewis cael prawf diagnostig (samplu filysau corionig [neu CVS] rhwng wythnos 11 ac wythnos 14 o'r beichiogrwydd, neu amniocentesis ar ôl wythnos 15). Pwrpas y prawf diagnostig yw dod i wybod a fydd beta-thalasaemia difrifol yn effeithio ar eich babi.

- Mae rhai rhieni'n dewis peidio â chael prawf diagnostig ac yn gadael i'r beichiogrwydd fynd yn ei flaen, gan wybod y gallai anhwylder difrifol ar yr haemoglobin effeithio arno.
- Mae rhai rhieni'n dewis cael prawf diagnostig ac yn penderfynu terfynu'r beichiogrwydd os daw'n amlwg bod anhwylder difrifol ar yr haemoglobin yn effeithio arno.
- Mae rhai rhieni'n dewis cael prawf diagnostig ac yn penderfynu gadael i'r beichiogrwydd fynd yn ei flaen, er eu bod yn gwybod bod anhwylder difrifol ar yr haemoglobin yn effeithio arno. Byddwch chi'n cael cynnig o brawf gwaed i'ch babi yn fuan ar ôl y geni, er mwyn dechrau ar y driniaeth, os oes angen triniaeth. Mae cael diagnosis cynnar yn gyfle i chi ac i'r tîm meddygol i baratoi gofal eich babi.

Gallwch chi gael mwy o wybodaeth am thalasaemia o'r manau canlynol.

- Y fydwraig yn yr ysbyty sy'n arbenigo ar sgrinio cyn-geni neu'r meddyg yn yr ysbyty (yr obstetregydd).
- Cymdeithas Thalasaemia'r Deyrnas Unedig
0208 882 0011
www.ukts.org

Cafodd y daflen yma ei haddasu ar sail taflen 'Rydych chi'n gludydd thalasaemia beta' (2014), Rhaglen Sgrinio'r GIG am Gryman-gell a Thalasaemia'

Fersiwn 2
Ebrill 2020

